Wales Centre for Public Policy
Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru



# Deall annhegwch mewn addysg drydyddol

# Y prif ganfyddiadau o ddadansoddi data

Briff Polisi

---

www.wcpp.org.uk

Hydref 2024

# Cyflwyniad

**Mae Llywodraeth Cymru wedi sefydlu Medr, y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil, i oruchwylio, ariannu a rheoleiddio addysg a hyfforddiant ôl-orfodol (AHO; sy'n cyfeirio at yr holl addysg a hyfforddiant ôl-16).**

Fel rhan o'i gylch gwaith, mae gan Medr ddyletswydd strategol i hyrwyddo cyfle cyfartal ar gyfer grwpiau a dangynrychiolir mewn addysg drydyddol. Gofynnwyd i Ganolfan Polisi Cyhoeddus Cymru (CPCC) ddarparu tystiolaeth i gefnogi Medr i gyflawni'r ddyletswydd hon, drwy:

- Cynnal dadansoddiad data sy'n edrych ar y cyfrannau o ddysgwyr ar draws addysg drydyddol sydd â nodweddion gwarchodedig neu nodweddion a gefnogir a sut mae'r rhain yn cymharu â phoblogaethau cymharol perthnasol;
- Adolygu ymyriadau sydd wedi cael eu rhoi ar waith ar draws gwledydd eraill y DU a Gweriniaeth Iwerddon i hyrwyddo cyfle cyfartal mewn addysg drydyddol; ac
- Awgrymu ymyriadau polisi neu ddulliau a allai helpu i fynd i'r afael â gwahaniaethau a nodwyd yn y dadansoddiad data.

Rydym wedi cyhoeddi cyfres o allbynnau i ateb y cwestiynau hyn gan gynnwys dadansoddiad data (Huxley a Davies, 2024); adolygiad tystiolaeth sy'n ymdrin â dulliau polisi presennol (Nesom et al., 2024); a chyfres o ddarnau gwyntyllu sy'n argymell ymyriadau a dulliau polisi (Boliver, 2024; Hazelkorn, 2024; Miles, 2024; Sibieta, 2024). Mae'r briff polisi hwn yn cyflwyno prif ganfyddiadau'r dadansoddiad data, gan adlewyrchu ein hallbynnau ychwanegol a gwaith arall sy'n gwneud ymdrech debyg i asesu cyfranogiad mewn addysg drydyddol ar draws y Deyrnas Unedig (Robson et al., 2024).



# Gwybodaeth am ein dadansoddiad data

**Gwnaethom weithio mewn partneriaeth â chydweithwyr yn Administrative Data Research (YDG) Cymru i gynnal y dadansoddiad data. Defnyddiodd ymchwilwyr YDG Cymru ddata gweinyddol cysylltiedig, gan gysylltu data Cyfrifiad 2011 ag amrywiol gronfeydd data addysg.**

Mae dwy ran i'r dadansoddiad:

- Dadansoddiad carfan, sy'n cysylltu dysgwyr o Gyfnod Allweddol 4 (TGAU) ag addysg uwch gan ddefnyddio data cyfrifiad 2011 i weld nodweddion dysgwyr. Mae'r dull hwn yn caniatáu i bum carfan gael eu holrhain dros amser drwy ddata cysylltiedig. Y cyntaf yw'r rhai ym Mlwyddyn 11 yn 2011/12 ac yn gorffen addysg uwch yn 2018/19.
- Dadansoddiad poblogaeth sy'n cysylltu dysgwyr ôl-16 mewn Chweched Dosbarth, addysg bellach ac addysg uwch â data Cyfrifiad 2011, sy'n ein galluogi i gofnodi nodweddion dysgwyr nad oes modd eu holrhain drwy'r dull carfan (e.e. dysgwyr sy'n oedolion; y rheini sy'n ymuno â'r system yng Nghymru o'r tu allan i Gymru; neu ddysgwyr a oedd mewn sefydliadau preifat ar gyfer eu haddysg orfodol).

Yn yr adroddiad llawn, mae data dysgwyr yn cael ei ddadansoddi ochr yn ochr ag amrywiaeth eang o nodweddion personol a theuluol. Yn y briff hwn, rydym yn cyflwyno detholiad o'r canfyddiadau hyn sy'n arbennig o arwyddocaol, diddorol neu annisgwyl. Mae'r canfyddiadau yn yr adroddiad hwn yn gysylltiadol: nid ydynt yn datgelu unrhyw fecanwaith achosol ond maent yn nodi ble mae nodweddion personol ac aelwyd pobl yn fwy neu'n llai cyffredin ymhlith y rhai sy'n cymryd rhan mewn addysg drydyddol.



# Canfyddiadau

## Amddifadedd

Roedd dysgwyr o gefndiroedd mwy difreintiedig yn llai tebygol o symud ymlaen i addysg drydyddol na'r rheini o gefndiroedd llai difreintiedig.

Er enghraifft, mae Ffigur 1 yn dangos bod disgyblion a oedd yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim (FSM) tua thraean yn fwy tebygol o beidio â bod mewn addysg neu hyfforddiant ôl-orfodol (AHO) o'i gymharu â'u cyfoedion nad oeddent yn cael prydau ysgol am ddim. Mae Ffigur 1 hefyd yn dangos bod disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, unwaith y maent mewn addysg drydyddol, yn fwy tebygol o fynychu addysg bellach na'r Chweched Dosbarth yn 16 oed.[1]


O ran symud ymlaen i addysg uwch, mae'r data'n dangos bod dysgwyr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn llai na hanner mor debygol o fynd i addysg uwch (19%) na dysgwyr nad oeddent yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim (43%). Mae hyn yn awgrymu rhwystrau mynediad i'r dysgwyr tlotaf yng Nghymru.

Fel y dangosir yn Ffigur 2, mae dysgwyr sy'n profi sawl dimensiwn o amddifadedd (gan gynnwys addysg, cyflogaeth, tai a/neu iechyd) yn llawer mwy tebygol o roi'r gorau i gymryd rhan mewn addysg yn 16 oed neu fynychu lleoliadau addysg bellach. Roedd disgyblion heb ddim neu â llai o ddimensiynau o amddifadedd yn fwy tebygol o fynychu Chweched Dosbarth.




[1] Mae data am addysg bellach yn gymhleth gan nad oes Chweched Dosbarth mewn ysgolion mewn rhannau o Gymru ac mae'r rhan fwyaf o'r dysgu ôl-16 yn cael ei wneud drwy golegau AB.

## Ffigur 1: Canran y disgyblion sy'n symud ymlaen i'r Chweched Dosbarth ac AB yn ôl statws FSM




## Ffigur 2: Canran y disgyblion sy'n symud ymlaen i'r Chweched Dosbarth ac AB yn ôl mesurau amddifadedd




## Cefndir teuluol a statws economaidd-gymdeithasol


Gan edrych ar gefndir cymdeithasol-economaidd y dysgwyr (Ffigur 3), gallwn weld patrymau dilyniant anghyfartal yn y data. Mae dysgwyr o gefndiroedd y gellir eu hystyried yn debygol o fod â chyfalaf economaidd, cymdeithasol a diwylliannol uwch (fel cyflogwyr mawr a rheolwyr; gweithwyr proffesiynol uwch; a rheolwyr lefel is) yn fwy tebygol o symud ymlaen i Chweched Dosbarth nag i addysg bellach. Mewn cyferbyniad, nid yw 10% o'r rhai nad yw eu teulu erioed wedi gweithio yn symud ymlaen i AHO. Roedd dros 50% o ddysgwyr o gefndir swyddi Goruchwylio Is; swyddi Lled-ailadroddus ac Ailadroddus; a chefndir Erioed wedi gweithio ddim ond yn symud ymlaen i addysg bellach. Unwaith eto, gallai hyn adlewyrchu cefndir daearyddol i ryw raddau gan fod yr holl addysg ôl-16 yn cael ei darparu drwy leoliadau addysg bellach (AB) mewn rhannau o Gymru.

Yn yr un modd, gan edrych ar ddosbarthiadau galwedigaethol Safonol (Ffigur 4), gallwn weld bod dysgwyr y mae eu rhieni yn dal rolau proffesiynol yn fwy tebygol o fynychu Chweched Dosbarth tra bo eraill yn fwy tebygol o fynychu AB, yn enwedig dysgwyr o gefndiroedd teuluol galwedigaethau sgiliau is. Yn ddiddorol, mae dosbarthiad economaidd-gymdeithasol a dosbarthiadau galwedigaeth safonol yn dangos bod plant rheolwyr yn llai tebygol o fynychu Chweched Dosbarth na phlant gweithwyr proffesiynol uwch. Efallai fod hyn yn adlewyrchu rheolwyr hunangyflogedig neu entrepreneuraidd y mae eu cefndiroedd cymdeithasol a diwylliannol yn hyrwyddo cymwysterau galwedigaethol yn hytrach na llwybrau academaidd. Gallai hyn hefyd adlewyrchu cysylltiad dysgwyr cyn-16 â'r sector ysgolion preifat, yn hytrach na'r sector gwladol. Fodd bynnag, nid oes data ar gael am gysylltiad ag ysgolion preifat ac felly mae angen gwneud rhagor o waith i ganfod pam y gallai hyn o bosibl fod yn wir.

**Ffigur 3: Canran y disgyblion sy'n symud ymlaen i'r Chweched Dosbarth ac AB yn ôl dosbarthiad economaidd-gymdeithasol**




## Ffigur 4: Canran y disgyblion sy'n symud ymlaen i'r Chweched Dosbarth ac AB yn ôl dosbarthiad galwedigaethol safonol





O edrych ar gyflawniad addysgol rhieni (Ffigur 5), a allai gael ei ystyried yn brocsi am gyfalaf economaidd a diwylliannol, gwelwn batrwm tebyg o ran dilyniant llwybr. Mae pum deg y cant o'r rhai y mae eu rhieni'n meddu ar gymhwyster lefel 4 neu uwch (sy'n cyfateb i unrhyw gymhwyster sy'n uwch na Safon Uwch, prentisiaeth uwch, neu gymhwyster sy'n cyfateb i NVQ lefel 3) yn symud ymlaen i'r Chweched Dosbarth tra bo 19% o'r rheini nad oes gan eu rhieni unrhyw gymwysterau yn gwneud hynny. Yn galonogol, fodd bynnag, mae'r cyfraddau peidio symud ymlaen yn gyson i raddau helaeth ar oddeutu 5-6% i bob cefndir addysgol ac eithrio lle nad oes gan y rhieni unrhyw gymwysterau.

## Ffigur 5: Canran y disgyblion sy'n symud ymlaen i'r Chweched Dosbarth ac AB yn ôl addysg y rhieni



Mae mynediad at addysg uwch yn dilyn patrwm tebyg (Ffigur 6). Y rhai sydd fwyaf difreintiedig yw'r lleiaf tebygol o symud ymlaen i addysg uwch, tra bo'r rhai sy'n lleiaf difreintiedig neu o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol neu alwedigaethol uwch yn fwy tebygol o symud ymlaen. Mae cymhwyster rhieni ar lefel 4+ (y bydd gan y mwyafrif ohonynt radd) hefyd yn llawer mwy tebygol o olygu y bydd dysgwyr yn symud ymlaen i addysg uwch. Yn ddiddorol, gellir nodi patrwm tebyg o ran dilyniant AHO ymysg rheolwyr. Mae eu plant yn llai tebygol o symud ymlaen i addysg uwch na phlant gweithwyr proffesiynol (er eu bod yn fwy tebygol o symud ymlaen na phob grŵp arall ar wahân i'r rhain).


**Ffigur 6: Cyfran y dysgwyr a aeth i AU yn ôl nodweddion y teulu/aelwyd**



# Anabledd

Mae pobl anabl yn llawer llai tebygol o gymryd rhan mewn addysg drydyddol na phobl heb anabledd. Mae ein data yn dangos bod disgyblion ag anableddau yn fwy tebygol o beidio â mynd i'r Chweched Dosbarth neu AB, gyda bron i un rhan o bump o'r disgyblion mwyaf anabl ddim yn symud ymlaen i'r naill leoliad na'r llall (Ffigur 7). Mae disgyblion anabl, boed eu cyfyngiadau yn fawr neu'n fach, hefyd yn fwy tebygol o fynychu lleoliadau addysg bellach na Chweched Dosbarth.

**Ffigur 7: Canran y disgyblion sy'n symud ymlaen yn ôl statws anabledd**




O ran symud ymlaen i addysg uwch, mae anghydraddoldebau tebyg, gyda'r rhai y mae anabledd yn cyfyngu fwyaf arnynt yn llai na hanner mor debygol o fynd i addysg uwch a'r rhai nad oes unrhyw gyfyngiadau arnynt (Tabl 2). Bydd angen gwneud gwaith i sefydlu pa rwystrau rhag mynediad sy'n bodoli i ddysgwyr anabl ac a oes modd eu goresgyn a sut.

**Tabl 1: Symud ymlaen i addysg uwch yn ôl statws anabledd**

| Anabledd | % yn symud ymlaen i addysg uwch |
|---|---|
| Cyfyngiadau mawr | 18% |
| Rhai cyfyngiadau | 27% |
| Dim cyfyngiad | 42% |




## Rhywedd

Roedd menywod yn fwy tebygol o ymwneud â mathau mwy academaidd o addysg drydyddol na dynion a symud ymlaen iddynt. Mae Ffigur 8 yn dangos bod cyfran uwch o ddysgwyr benywaidd wedi symud ymlaen i addysg drydyddol o'i gymharu â dysgwyr gwrywaidd. Fodd bynnag, er bod cyfran uwch o ddysgwyr benywaidd yn mynychu Chweched Dosbarth, roedd mwy o ddynion yn pontio i AB ar ôl addysg orfodol. Mae dysgwyr gwrywaidd hefyd yn llawer mwy tebygol o beidio â symud ymlaen i addysg drydyddol na dysgwyr benywaidd.

O ran ymwneud â chyrsiau neu fathau penodol o astudio, roedd cofrestru ar gyfer dysgu Safon Uwch Gyfrannol a Safon Uwch yn fwy cyffredin i ddysgwyr benywaidd, ac i ddysgwyr gwrywaidd roedd dysgu galwedigaethol a dysgu seiliedig ar waith yn fwy cyffredin. Roedd menywod yn cael eu cynrychioli'n fwy eang ar draws yr holl astudiaethau israddedig ac ôl-raddedig er nad oedd fawr o wahaniaeth mewn cyrhaeddiad rhwng menywod a dynion ar lefel israddedig. O ran prentisiaethau, roedd cyfran uwch o ddynion yn cael hyfforddiant Ymgysylltu a Lefel 1, ond roedd 73% o'r rhai mewn prentisiaethau uwch yn fenywod.

**Ffigur 8: Canran y disgyblion sy'n symud ymlaen i'r Chweched Dosbarth ac AB yn ôl rhywedd**




Mae bwlch amlwg rhwng y rhywiau o ran dilyniant i addysg uwch, gyda bron i hanner y dysgwyr benywaidd yn symud ymlaen o'i gymharu ag ychydig dros draean o ddynion (Tabl 3). Gallai ymchwil pellach sefydlu achosion posibl hyn. Efallai fod cyflogaeth yn chwarae rhan, oherwydd os yw dynion ifanc yn dechrau ar yrfa lle nad oes angen cymwysterau addysg uwch arnynt, gallai hyn effeithio ar eu tebygolrwydd o symud ymlaen i addysg uwch.

**Tabl 2: Symud ymlaen i addysg uwch yn ôl rhywedd**


| Rhywedd | % yn symud ymlaen i addysg uwch |
|---|---|
| Benywaidd | 46% |
| Gwrywaidd | 34% |

## Ethnigrwydd

Mae amrywiaeth ethnig yng Nghymru yn isel, gyda 93.8% o'r boblogaeth yng Nghymru yn nodi eu bod yn Wyn yng Nghyfrifiad 2021 (Llywodraeth Cymru, 2022). Mae hyn yn cael ei adlewyrchu yn y data sy'n dangos bod dros 90% o'r dysgwyr yn y garfan yn dod o gefndiroedd Ethnig Gwyn. Fodd bynnag, mae'r data'n dangos amrywiad ar sail ethnigrwydd o ran y gyfran sy'n symud ymlaen i addysg drydyddol. Mae Ffigur 9 yn dangos mai dysgwyr Asiaidd oedd â'r gyfran uchaf yn cofrestru yn y Chweched Dosbarth. Roedd peidio â mynychu unrhyw fath o addysg drydyddol yn fwyaf cyffredin i ddysgwyr Gwyn Arall, a oedd hefyd â'r gyfran isaf yn mynd i'r Chweched Dosbarth. Fodd bynnag, mewn perthynas ag AB, roedd dysgwyr Gwyn Arall yn fwy tebygol o gofrestru.

O ran y math o gwrs, mae'r data'n dangos rhywfaint o amrywiad ar sail ethnigrwydd. Roedd dysgwyr Gwyn Prydeinig yn fwy tebygol o gofrestru ar gyrsiau galwedigaethol, ac o ran addysg uwch, dyma'r grŵp ethnig a oedd â'r gyfran leiaf yn symud ymlaen. Roedd cofrestru ar gyfer Safon UG yn fwy cyffredin ymysg dysgwyr Gwyn Arall, ac roedd cofrestru ar gyfer Safon Uwch yn uwch ymysg dysgwyr Asiaidd.


**Ffigur 9: Canran y disgyblion yn mynd i'r chweched dosbarth ac AB yn ôl nodweddion personol**



## Gwlad Wreiddiol

Mewn perthynas â chenedligrwydd, roedd dysgwyr yr oedd eu teulu yn tarddu o’r DU yn llai tebygol o symud ymlaen i’r Chweched Dosbarth ac yn fwy tebygol o fynd i addysg bellach. Roedd y gwrthwyneb yn wir am ddysgwyr o gartrefi oedd â’u gwlad wreiddiol y tu allan i’r DU, a oedd yn fwy tebygol o symud ymlaen i’r Chweched Dosbarth ac yn llai tebygol o fynd i addysg bellach. Fel y dangosir yn Ffigur 10, roedd cyfran y dysgwyr a symudodd ymlaen i addysg uwch yn uwch na’r cyfartaledd i’r rheini o aelwydydd â tharddiad y tu allan i’r DU, ac yn uwch nag i ddysgwyr o aelwydydd yn tarddu o’r DU.

**Ffigur 10: Canran y symud ymlaen i AU yn ôl cenedligrwydd teulu/aelwyd**







# Gallu yn y Gymraeg

Yn gyffredinol, ar draws y data, nid oedd amrywiad mawr ar sail y dysgwr, nac aelwyd y dysgwr, a'i allu i siarad Cymraeg. Fodd bynnag, mae Ffigur 11 yn dangos bod siaradwyr Cymraeg rhugl yn fwy tebygol o fod mewn addysg drydyddol na'r rheini sydd â llai o Gymraeg neu ddim Cymraeg, a'u bod yn fwy tebygol o fod mewn Chweched Dosbarth na'r rheini sydd â llai o Gymraeg neu ddim Cymraeg. Mae angen gwaith i ddeall a gwahanu'r gallu i siarad Cymraeg oddi wrth ffactorau posibl eraill fel statws economaidd-gymdeithasol neu ffactorau sy'n gysylltiedig ag addysg mewn ysgol cyfrwng Cymraeg.

**Ffigur 11: Canran y disgyblion sy'n symud ymlaen i'r Chweched Dosbarth ac AB yn ôl gallu yn y Gymraeg**



# Casgliad

**Mae ein dadansoddiad data yn tynnu sylw at raddfa a natur amlddimensiwn gwahaniaethau o ran mynediad at addysg drydyddol yng Nghymru. Mae nodweddion personol ac aelwyd, yn enwedig amddifadedd ac anabledd, yn dal yn bwysig o ran penderfynu a yw pobl yn cael mynediad at addysg drydyddol ac, os ydynt, a ydynt yn dilyn llwybrau mwy 'academaidd' (Chweched Dosbarth ac addysg uwch) neu lwybrau mwy 'galwedigaethol' (addysg bellach a dysgu seiliedig ar waith).**

Dylid gweld y canfyddiadau hyn yng nghyd-destun ehangach cyfranogiad is yng Nghymru o'i gymharu â gweddill y DU a chyfraddau llawer uwch o blant nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant ers pandemig Covid-19. Nid yw ein dadansoddiad yn cofnodi effeithiau Covid-19 a'r cyfyngiadau symud ar addysg pobl ifanc gan fod y data rydym wedi'i ddadansoddi yn dod o'r cyfnod cyn y pandemig gyda'r garfan olaf wedi'i chofnodi yng Nghyfnod Allweddol 4 yn yr ysgol yn 2016/17. Gwyddom o ddata Llywodraeth Cymru fod cyfranogiad yn gyffredinol wedi gostwng ers hynny.

Mae ein cyhoeddiadau eraill yn y gyfres hon wedi edrych ar ddulliau polisi a allai wella rhywfaint o'r annhegwch o ran mynediad rydym wedi'i nodi. Mae ein gwaith sy'n edrych ar ymyriadau yng ngwledydd eraill y DU a Gweriniaeth Iwerddon yn awgrymu bod rhywfaint o lwyddiant wedi bod o ran ehangu mynediad at addysg uwch, yn enwedig yn Lloegr (Nesom et al., 2024). Fodd bynnag, mae perygl y bydd y dull presennol, sy'n ceisio ehangu cyfleoedd, yn wynebu hinsawdd ariannol llai ffafriol. Efallai y bydd angen ystyried ailddosbarthu cyfle, sy'n golygu ymdrechion gweithredol i ddyrannu lleoedd cyfyngedig yn decach.

Gallai ymdrechion o'r fath gynnwys defnydd ehangach o dderbyniadau cyd-destunol i addysg uwch ar gyfer dysgwyr o gefndiroedd mwy difreintiedig, dull sydd wedi dangos addewid yn Lloegr (Boliver, 2024; Nesom et al., 2024). Gallai mynd i'r afael â rhwystrau rhag mynediad at ddysgu seiliedig ar waith ac annog dysgu gydol oes helpu i ddal dysgwyr yn nes ymlaen yn eu bywydau er mwyn adeiladu ar ddyheadau i ddatblygu sgiliau gydol oes, ond law yn llaw â hynny byddai angen mesurau i roi gwerth cyfartal ar waith rhwng lleoliadau mwy 'academaidd' a 'galwedigaethol' (Miles, 2024; Hazelkorn, 2024) a llwybrau addysgol. Yn olaf, mae dilyniant yn aml yn cael ei bennu gan ddigwyddiadau cyn 16 oed, felly bydd angen i ddull gweithredu ysgol gyfan sy'n cynnwys addysg orfodol ac ôl-orfodol fod ar waith i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau hirsefydlog ac anodd eu dileu (Sibieta, 2024).

**I weld yr adroddiad llawn ewch i**
**https://wcpp.org.uk/cy/cyhoeddi/tegwch-addysg-drydyddol**

**I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â:**
**Awdur y Briff Polisi Dr Jack Price**
info@wcpp.org.uk
+44 (0)29 2087 5345

## Cyfeiriadau


Boliver, V. (2024). **Contextualised admissions: a key to widening participation in tertiary education in Wales**. Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru.

Hazelkorn, E. (2024). **Widening Participating & Transforming Lives: What Works? Reflections on *Widening Participation In Tertiary Education* and *Equity in Tertiary Education in Wales***. Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru.

Huxley, K. and Davies, R. (2024). **Equity in tertiary education in Wales**. Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru.

Miles, J. (2024). **Equity in Tertiary Education in Wales: an adult learning perspective**. Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru.

Nesom, S., Silva, L., Skeels, A., Taylor-Collins, E., Hill-Dixon, A., Price, J. (2024). **Widening participation in tertiary education: Evidence review and reflections for Wales**. Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru.

Robson, J., Sibieta, L., Khandekar, S., Neagu, M., Robinson, D., & James Relly, S. (2024). **Comparing policies, participation and inequalities across UK post-16 Education and Training landscapes**. Education Policy Institute.

Sibieta, L. (2024). **More data and earlier focus key to tackling post-16 inequalities in education and training**. Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru.






### Gwybodaeth am Ganolfan Polisi Cyhoeddus Cymru

Yma yn y Ganolfan, rydym yn cydweithio ag arbenigwyr polisi blaenllaw i roi cyngor annibynnol a thystiolaeth o ansawdd da i weinidogion, y gwasanaeth sifil a gwasanaethau cyhoeddus Cymru, i'w helpu i wella penderfyniadau a chanlyniadau polisi.


Mae'r Ganolfan yn cael ei hariannu gan y Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol, Llywodraeth Cymru a Phrifysgol Caerdydd. Mae wedi'i lleoli ym Mhrifysgol Caerdydd ac mae'n aelod o Rwydwaith What Works y DU.



## Tegwch ym Maes Addysg Drydyddol yng Nghymru

**Sganiwch yma i ddarllen ein hadroddiadau i gyd gyda chyfeiriadau llawn.**

**Wales Centre for Public Policy**
**Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru**


**Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru**
Prifysgol Caerdydd, Sbarc | Spark,
Heol Maindy, Caerdydd, CF24 4HQ

www.wcpp.org.uk
029 2087 5345
info@wcpp.org.uk
@WCfPP



Cardiff University / Prifysgol Caerdydd
UKRI Economic and Social Research Council
Llywodraeth Cymru / Welsh Government